## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## Y FFRAMWAITH MOESOL NEWYDD AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

### Diben

1 Cyflwynir y papur hwn er gwybodaeth.

### Crynodeb

2 Mae’r papur hwn yn crynhoi’r camau sy’n cael eu cymryd i sefydlu fframwaith moesol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae’r fframwaith newydd hwn yn cael ei ystyried fel rhan o Fesur Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol.

3 Mae’r rhannau sy’n sail i’r fframwaith moesol newydd yn cynnwys:

- yr egwyddorion cyffredinol a’r cod ymddygiad ar gyfer aelodau. Yr egwyddorion cyffredinol yw’r sail ar gyfer y cod ymddygiad. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol fabwysiadu cod ymddygiad a bydd yn rhaid i bob un o’u haelodau gytuno i fod yn rhwym wrtho;

- swyddogaethau archwilio newydd a gaiff eu rhoi i’r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, a fydd yn gyfrifol am drafod honiadau o fethiant gan aelod i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol;

- pwyllgorau safonau ymddygiad, a fydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor a hyfforddiant, am ystyried materion sy’n ymwneud ag ymddygiad aelodau a gyfeirir at swyddog monitro gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, am osod cosbau pan gaiff honiadau eu cadarnhau, ac am ganiatáu hawl i siarad neu bleidleisio. Bydd hawl i apelio gan y pwyllgor safonau ymddygiad i banel apeliadau a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol;

- Panel Dyfarnu ar gyfer Cymru, a all sefydlu tribiwnlysoedd achos er mwyn adolygu tystiolaeth archwiliadau’r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, a gosod cosbau addas pan gaiff yr honiadau eu cadarnhau; a hefyd

- cod ymddygiad ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol.

### Amseriad

4 Yn Atodiad 1, ceir rhestr fanwl o offerynnau statudol o dan Ran III Deddf 2000, a gaiff eu cyflwyno gerbron y Cynulliad er mwyn iddynt ddod i rym ar 28 Gorffennaf 2001. Cynhelir ymgynghoriad ar hyn o bryd ar y rheoliadau drafft sydd eu hangen er mwyn sefydlu'r gweithdrefnau manwl i weithredu'r fframwaith. Mae'r dyddiad terfynol ar gyfer ymateb yn amrywio rhwng 20 Mawrth a 9 Ebrill 2001.

**Cefndir**

5 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gynghorwyr ddatgan y byddant yn cael eu llywio gan God Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol wrth iddynt dderbyn y swydd. Mae'r Cod hwn yn ymdrin â buddiannau ariannol a buddiannau nad ydynt yn ariannol. Prin yw'r mecanweithiau sydd ar gael ar gyfer gorfodi'r cod ymddygiad llywodraeth leol cyfredol, heblaw am achosion sy'n cynnwys camweinyddu lle bydd y Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yn archwilio.

6 Mae Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu fframwaith moesol newydd ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys mecanweithiau newydd i'w orfodi. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bob aelod etholedig a chyfetholedig o'r awdurdodau perthnasol gytuno i ufuddhau i god ymddygiad statudol. Bydd yn rhaid i awdurdodau sefydlu pwyllgorau safonau ymddygiad er mwyn hyrwyddo safonau ymddygiad a chynorthwyo aelodau etholedig a chyfetholedig i lynu at y cod ymddygiad. Rhagwelir y byddai cynghorau cymuned yn defnyddio is-bwyllgorau o bwyllgorau safonau ymddygiad y prif gynghorau pan y byddai hynny'n briodol.

7 Mae'r Ddeddf yn creu darpariaethau statudol ar gyfer archwilio honiadau bod aelodau wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad, gan gynnwys pwerau i osod cosbau a'r hawl i apelio. Bydd gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru rôl ganolog yn y gwaith o archwilio'r fath honiadau. Ni fydd y Comisiwn ei hun yn gosod cosbau. Bydd ganddo'r pwerau i un ai i gyfeirio achosion at y Panel Dyfarnu, a fydd yn sefydlu tribiwnlys ystyried yr achos, ac yn gosod cosbau os oes angen, neu i gyfeirio achosion at swyddog monitro'r awdurdod perthnasol. Mewn achosion o'r fath, bydd pwyllgor safonau ymddygiad yr awdurdod hwnnw yn gosod cosbau, os oes angen. Ceir siart llif sy'n nodi'r prif gamau er mwyn mabwysiadu a gorfodi'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau yn Atodiad 2.

8 Mae'r fframwaith moesol newydd hefyd yn cynnwys cod ymddygiad ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol, a gaiff ei ymgorffori i delerau ac amodau eu cyflogaeth. Caiff athrawon ac ymladdwyr tân eu heithrio o'r cod, oherwydd eu bod hwy'n atebol i drefniadau eraill.

9 Bydd y fframwaith moesol newydd yn berthnasol i gynghorau sirol a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, ac awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol. Er y bydd awdurdodau'r heddlu yng Nghymru yn atebol i god ymddygiad Lloegr, byddant yn cael eu harchwilio gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, a fydd yn cyfeirio adroddiadau ei archwiliadau mewn achosion priodol i'r Panel Dyfarnu ar gyfer Cymru.

**Ystyriaeth**

10 Bydd Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn copïau o'r papurau ymgynghori a'r rheoliadau drafft sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr ymgynghoriad, ac maent yn rhydd i ymateb yn unigol. Mae'r materion penodol y ceisir barn y Pwyllgor arnynt yn cynnwys:

- Y cod ymddygiad ar gyfer aelodau: A yw Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod y cod fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn glir ac yn gadarn? Oes unrhyw un o'i ofynion yn afresymol? A ddylid bod cyngor mwy penodol ar wahân ar gyfer ymdrin ag ymddygiad mewn meysydd penodol, er enghraifft cynllunio?

- Cofrestru buddiannau: A ydyw'r gofynion ar gyfer datgan a chofrestru buddiannau yn glir ac yn rhesymol? A ddylent fod yn cynnwys teulu ehangach aelodau?

- A ydyw'n rhesymol i fynnu y dylai o leiaf hanner aelodau pwyllgor safonau ymddygiad fod yn bobl annibynnol?

- A ddylai swyddogion monitro a phwyllgorau safonau ymddygiad awdurdodau chwarae rôl arwyddocaol mewn archwilio ac ymdrin â honiadau a wnaed yn erbyn eu haelodau, neu ai dim ond bob yn hyn a hyn y dylai'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ddefnyddio ei bwerau o dan y Ddeddf i gyfeirio materion at swyddogion monitro?

**Themâu traws-bynciol**

11 Bydd y fframwaith moesol newydd yn bwysig er mwyn i lywodraeth leol yng Nghymru weithredu'n effeithiol, ac er mwyn i'r cyhoedd fod yn hyderus â ffydd ynddo. Rydym yn y broses o ymgynghori'n eang ar y rheoliadau drafft a fydd yn rhoi agweddau o'r fframwaith ar waith. Mae egwyddor cydraddoldeb wedi ei gynnwys yn yr egwyddorion cyffredinol a'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau a gweithwyr. Ystyriwyd goblygiadau'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 6, wrth lunio'r rheoliadau drafft a'r dogfennau ymgynghori, ac yn arbennig y darpariaethau sy'n ymwneud â gweithrediad tribiwnlysoedd achosion ac apeliadau oddi wrth bwyllgorau safonau ymddygiad.

**Gweithredu**

12 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r camau sy'n cael eu cymryd a chynnig barn ar y fframwaith arfaethedig.

**Cyswllt**

Mary Fraser, Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 1, Est. 6414.